# Deddf Cefn Gwlad A Hawliau Tramwy 2000

## Canllawiau ar lenwi'r ffurflen i gyfyngu'r hawl mynediad ar dir mynediad

Darllenwch y nodiadau hyn cyn dechrau llenwi'r ffurflen. Cyfeiriwch hefyd at y llyfryn "Sut i Ddefnyddio Cyfyngiadau", Ar gael ar wefan CNC sy'n esbonio sut mae'r darpariaethau cyfyngu yn gweithio, sut i'w defnyddio a sut i apelio, os penderfynwn mewn unrhyw fodd gyfyngu ar neu wahardd yr hawl mynediad yn unol â'r cais.

Os ydych yn defnyddio'r ffurflen i hysbysu am gyfyngiad, sicrhewch eich bod yn gadael digon o amser i gydymffurfio â'r cyfnod lleiaf o rybudd sy'n ofynnol. 5 diwrnod gwaith yw hwn am yr opsiynau 28 niwrnod ac wyna a 28 niwrnod am yr opsiwn rhostir grugieir.

Byddwn yn ymateb yn yr iaith a ddefnyddiwch i lenwi'r ffurflen.

Dychwelwch yn ffurflen hon atom gan ddefnyddio'r cyfeiriad post neu'r cyfeiriad e-bost ar ddiwedd y canllawiau hyn.

### I beth mae'r ffurflen?

Gallwch ddefnyddio'r ffurflen i hysbysu am gyfyngiad neu i wneud cais am gyfyngiad.

### A allwch ddefnyddio'ch pwerau heb ddefnyddio'r ffurflen?

Nid oes yn rhaid i chi ddefnyddio'r ffurflen, ond mae'r rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i chi roi lleiafswm o wybodaeth yn ysgrifenedig. "Sut i Ddefnyddio Cyfyngiadau" yn esbonio'r lleiafswm o wybodaeth. **Ni fydd eich hysbysiad neu gais yn ddilys nes bod yr holl leiafswm gwybodaeth gennym yn ysgrifenedig.**

Byddwn yn cadw'r wybodaeth am y cyfyngiadau a'r ceisiadau a wnewch ac yn rhoi rhifau cyfeirnod i chi amdanynt. Byddwch yn gallu dyfynnu'r rhifau cyfeirnod er mwyn osgoi ailadrodd gwybodaeth pan fyddwch eisiau cyfyngu'r hawl eto.

### Beth yw'r opsiynau am gyfyngu'r hawl mynediad?

Ar yr amod eu bod yn ein hysbysu ymlaen llaw, mae'n bosibl y bydd gan denantiaid a pherchnogion bwerau i gyfyngu'r hawl mynediad heb ganiatâd ar hyd at 28 niwrnod y flwyddyn galendr, neu i wahardd pobl â chŵn o rostiroedd grugieir neu o diroedd amgaeëdig o hyd at 15 hectar mewn cysylltiad ag wyna. Caiff pob person sydd â buddiant mewn tir hefyd wneud cais i'w hawdurdod perthnasol i gael cyfyngu'r hawl at ddibenion rheoli tir gan y ceisydd, neu er mwyn osgoi perygl i'r cyhoedd, neu er mwyn atal tân ar dywydd eithriadol. Darllenwch "Sut i Ddefnyddio Cyfyngiadau" i gael y manylion.

## Pwy gaiff ddefnyddio'r opsiynau hyn?

Darllenwch "Sut i Ddefnyddio Cyfyngiadau" er mwyn gweld pa bwerau sydd gennych.

## Pa adrannau o'r ffurflen ddylech eu llenwi?

### Hysbysu

**Opsiwn 28 niwrnod:** I hysbysu eich bod yn cyfyngu'r hawl mynediad gan ddefnyddio'r opsiwn 28 niwrnod, dylech lenwi'r adrannau canlynol yn unig:

A – Manylion cyswllt.
B – Manylion cyswllt yr asiant – os ydych yn gweithredu ar ran rhywun arall.
C – Buddiant yn y tir.
D – Manylion y safle.
E – Rwyf yn hysbysu y byddaf yn cyfyngu'r hawl mynediad gan ddefnyddio'r opsiwn 28 niwrnod.
G – Dyddiadau ac amserau.
L – Datganiad a llofnod ar ddiwedd y ffurflen.

**Opsiwn wyna:** I hysbysu eich bod yn gwahardd pobl â chŵn mewn cysylltiad ag wyna, dylech lenwi'r adrannau canlynol yn unig:

A - Manylion cyswllt.
B – Manylion cyswllt yr asiant – os ydych yn gweithredu ar ran rhywun arall.
C – Buddiant yn y tir.
D – Manylion y safle.
F – Rwyf yn hysbysu y byddaf yn gwahardd pobl â chŵn.
G – Dyddiadau ac amserau.
L – Datganiad a llofnod ar ddiwedd y ffurflen.

**Opsiwn rhostir grugieir:** I hysbysu eich bod yn gwahardd pobl â chŵn o rostir grugieir, dylech lenwi'r adrannau canlynol yn unig:

A - Manylion cyswllt.
B – Manylion cyswllt yr asiant – os ydych yn gweithredu ar ran rhywun arall.
C – Buddiant yn y tir.
D – Manylion y safle.
E – Rwyf yn hysbysu y byddaf yn gwahardd pobl â chŵn.
G – Dyddiadau ac amserau.
L – Datganiad a llofnod ar ddiwedd y ffurflen.

### Ceisiadau

Dylech lenwi'r holl adrannau ac eithrio adrannau E ac F, os ydych yn gwneud cais am i ni roi cyfarwyddyd sy'n cyfyngu'r hawl mynediad.

A - Manylion cyswllt.
B – Manylion cyswllt yr asiant – os ydych yn gweithredu ar ran rhywun arall.
C – Buddiant yn y tir.

D – Manylion y safle.
G – Dyddiadau ac amserau.
H – Y rhesymau dros gais.
I – Sut y bydd yr hawl mynediad yn cael ei chyfyngu.
J – Amodau cyfyngiad.
K – Cyfiawnhad i gefnogi cais i gyfyngu neu wahardd yr hawl mynediad.
L – Datganiad a llofnod ar ddiwedd y ffurflen.

## Canllawiau i lenwi pob adran

### Adran A – Manylion cyswllt

Mae'n rhaid i chi roi teitl, enw cyntaf neu lythrennau cyntaf enw/au, cyfenw, cyfeiriad, tref a chod post ar gyfer y ceisydd neu'r person sy'n hysbysu.

Bydd hefyd o gymorth i ni os rhowch unrhyw un/rai o'r manylion eraill.

Os gwnewch gais trwy e-bost, byddwn yn parhau i ohebu â chi trwy e-bost oni ofynnwch i ni wneud fel arall.

### Adran B – Manylion cyswllt yr asiant

Os ydych yn asiant sy'n gweithredu ar ran ceisydd neu rywun sy'n hysbysu, mae'n rhaid i chi lenwi Adran A ac Adran B. Yn Adran B mae'n rhaid i chi roi eich teitl, eich enw cyntaf neu lythrennau cyntaf eich enw/au, eich cyfenw, cyfeiriad, tref a chod post.

Bydd hefyd o gymorth i ni os rhowch unrhyw un/rai o'r manylion eraill.

Os ydych yn gweithredu fel asiant ar ran rhywun, byddwn yn anfon copi o'r holl ohebiaeth at y person hwnnw oni ofynnwch i ni beidio. Os nad ydych eisiau i ni anfon copi o'r ohebiaeth at y person hwnnw, nodwch hynny â chroes ("X") yn y blwch olaf yn Adran B.

Os gwnewch gais trwy e-bost, byddwn yn parhau i ohebu â chi trwy e-bost oni ofynnwch i ni wneud fel arall.

### Adran C – Buddiant y ceisydd yn y tir

Ticiwch un o'r blychau i ddangos y math o fuddiant sydd gennych yn y tir lle'r ydych eisiau i'r hawl mynediad gael ei chyfyngu. Os oes gennych fwy nag un buddiant yn y tir, cewch dicio mwy nag un blwch. Byddwn yn gweithio allan pa fath o fuddiant sydd fwyaf perthnasol i'r hyn yr ydych eisiau ei wneud. Anwybyddwch unrhyw fuddiannau eraill sydd gennych mewn tir arall.

Nodwch mai dim ond perchen-feddianwyr a thenantiaid a gaiff ein hysbysu. Os oes gennych unrhyw fuddiant arall yn y tir, mae angen i chi wneud cais, gan ofyn i'ch awdurdod perthnasol roi cyfarwyddyd sy'n cyfyngu'r hawl.

### Adran D – Manylion y safle

Mae’n bwysig iawn y gallwn gofnodi arwynebedd y tir yn fanwl gywir.

Nodwch ffiniau’r safle ar fap ac atodwch y map i’r ffurflen hon. Cewch ofyn am gopi o fap oddi wrth eich awdurdod perthnasol.

Yn y gofod hwn, rhowch Gyfeirnod Grid 6 ffigwr ar gyfer canol y safle neu ddisgrifiwch leoliad y safle mewn geiriau, nodwch nifer yr hectarau ac enw’r safle os yn wybyddus. Hyd yn oed os ydych wedi anfon map, mae’n bosibl y bydd angen y wybodaeth ychwanegol hon arnom er mwyn gweithio allan i ba ran o’r wlad mae’r map yn cyfeirio.

Os yw’r safle o fewn ardal ddynodedig neu yn destun trafodion cyfreithiol ar hyn o bryd, nodwch y wybodaeth hon hefyd yn Adran D.

### Adran E – Hysbysu eich bod yn cyfyngu’r hawl gan ddefnyddio’r opsiwn 28 niwrnod

Ticiwch y blwch perthnasol i ddweud wrthym a ydych yn gwahardd yr hawl mynediad yn llwyr ynteu ddim ond ei chyfyngu.

Os mai dim ond cyfyngu’r hawl yr ydych, pennwch yn Adran J yr amodau y mae’n rhaid i’r cyhoedd gydymffurfio â hwy tra bônt ar y tir. “Sut i Ddefnyddio Cyfyngiadau” yn esbonio’r ffyrdd y cewch gyfyngu’r hawl.

Os ydych yn cyfyngu’r cyhoedd i lwybr neu i bwyntiau mynediad penodol, marciwch y rhain ar y map yr ydych yn ei atodi i’r ffurflen.

Rydym eisiau dysgu am y ffyrdd y mae pobl yn defnyddio’r opsiwn 28 niwrnod ac felly byddem yn croesawu gwybodaeth am y rheswm pam yr ydych yn cyfyngu’r hawl mynediad. Os ydych yn fodlon gwneud hyn, rhowch y prif reswm yn yr adran hon.

### Adran F – Hysbysu eich bod yn gwahardd pobl â chŵn mewn cysylltiad ag wyna neu ar rostir grugieir.

Ticiwch y blwch perthnasol i ddweud wrthym a ydych yn gwahardd pobl â chŵn o dir amgaeëdig ar gyfer wyna neu o rostir grugieir.

### Adran G – Dyddiadau ac amserau

Dylech lenwi’r adran hon os ydych yn hysbysu neu’n gwneud cais.

Os ydych yn gwneud cais am i’r hawl mynediad gael ei gwahardd neu ei chyfyngu am gyfnod amhenodol, ticiwch y blwch cyntaf yn yr adran hon.

Os ydych yn hysbysu neu’n gwneud cais am i’r hawl gael ei chyfyngu yn ystod cyfnodau penodol, ticiwch yr ail flwch yn yr adran hon.

Cewch ddefnyddio’r ffurflen hon i bennu hyd at 16 cyfnod gwahanol pan ydych eisiau i’r cyfyngiadau yr ydych wedi’u pennu yn y ffurflen hon fod yn gymwys i’r tir yr ydych wedi’i bennu yn adran D.

Os ydych eisiau pennu mwy nag 16 cyfnod, atodwch ffurflen arall gydag Adran D wedi'i llenwi ar gyfer y cyfnodau ychwanegol. Nid oes angen i chi lenwi'r manylion eraill ar y ffurflen arall.

### Hysbysu

Os ydych yn hysbysu, edrychwch yn "Sut i Ddefnyddio Cyfyngiadau" i weld pryd mae gennych hawl i gyfyngu'r hawl mynediad gan ddefnyddio'r opsiwn 28 niwrnod neu i wahardd pobl â chŵn. Peidiwch â phennu unrhyw ddyddiadau pan nad oes gennych hawl i gyfyngu'r hawl mynediad.

### Ceisiadau

Cewch wneud cais i gael cyfyngu'r hawl ar unrhyw ddiwrnod o'r flwyddyn.

### Pennu'r union ddyddiadau dechrau a gorffen

Os gwyddoch pryd yn union yr ydych eisiau dechrau a gorffen cyfyngu'r hawl mynediad, rhowch yr union ddyddiad dechrau o dan "Dyddiad Dechrau neu Gynharaf", rhowch yr union ddyddiad gorffen o dan "Dyddiad Gorffen neu Hwyraf" a rhowch nifer y dyddiau o dan "Uchafswm y dyddiau pan fydd y cyfyngiad yn gymwys".

### Pennu cyfnod y bydd cyfyngiad byrrach yn gymwys ynddo

Os na wyddoch yr union ddyddiadau dechrau a gorffen, gallwch roi'r dyddiadau cynharaf a hwyraf a phennu nifer y dyddiau yr ydych eisiau i'r hawl gael ei chyfyngu yn ystod y cyfnod hwnnw. Os gwnewch hyn, rhowch y dyddiad cynharaf o dan "Dyddiad Dechrau neu Gynharaf", rhowch y dyddiad hwyraf o dan "Dyddiad Gorffen neu Hwyraf" a nodwch nifer y dyddiau pan yw'r cyfyngiad i fod yn gymwys o dan "Uchafswm y dyddiau pan fydd y cyfyngiad yn gymwys".

Os ydych yn defnyddio'r opsiwn hwn wrth hysbysu, mae'n rhaid i chi ein hysbysu ymhellach o'r union ddyddiad neu ddyddiadau cyn y mae'r cyfyngiad i fod yn gymwys. Edrychwch yn "Sut i Ddefnyddio Cyfyngiadau" i weld faint o rybudd mae'n rhaid i chi ei roi.

Os ydych yn defnyddio'r opsiwn hwn i hysbysu gan ddefnyddio'r opsiwn 28 niwrnod, gall y cyfnod yr ydych yn ei bennu gynnwys dyddiau pan nad oes gennych hawl i gyfyngu'r hawl mynediad. Fodd bynnag, pan fyddwch yn hysbysu am yr union ddyddiadau, cofiwch fod yn rhaid i'r rhain nodi'r union ddyddiadau y mae gennych hawl i gyfyngu mynediad arnynt.

### Amserau

Os oes arnoch angen cyfyngu'r hawl mynediad am ran o ddiwrnod yn unig, pennwch yr amserau dechrau a gorffen gan ddefnyddio'r cloc 24 awr.

### Enghraifft o Adran G

| **G. Dyddiadau ac amserau** (Ticiwch y blwch perthnasol a llenwch y dyddiadau dechrau a gorffen). | | |
|---|---|---|
| ☐ | Rwyf yn gwneud cais am i'r hawl mynediad cyhoeddus | Ceisiadau yn unig |

| | | |
|---|---|---|
| | gael ei gwahardd neu ei chyfyngu am gyfnod amhenodol | |
| ☐ | Rwyf yn pennu'r dyddiadau isod. | Hysbysiadau a cheisiadau |

| **Cyfyngiad rhif** | **Dyddiad Dechrau neu Gynharaf** | | | | **Dyddiad Gorffen neu Hwyraf** | | | | **Uchafswm y dyddiau pan fydd y cyfyngiad yn gymwys** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Dyddiad** | | | **Amser** | **Dyddiad** | | | **Amser** | |
| 1 | 1 | Meh | 15 | | 4 | Meh | 15 | | 4 |
| 2 | 1 | Gorff | 15 | | 23 | Gorff | 15 | | 5 |
| 3 | 6 | Medi | 15 | | 6 | Medi | 15 | | 1 |
| 4 | 4 | Hyd | 15 | 0600 | 4 | Hyd | 15 | 1300 | 1 |
| 5 | | | | | | | | | |
| 6 | | | | | | | | | |
| 7 | | | | | | | | | |

## Adran H – Y rhesymau dros y cais

Ticiwch y blwch perthnasol i ddangos diben eich cais. Cewch nodi un yn unig o'r rhesymau a roddir ar y ffurflen.

## Adran I – Sut mae'r hawl mynediad i gael ei chyfyngu?

Ticiwch un o'r blychau i ddangos a yw'r hawl mynediad i gael ei gwahardd yn llwyr neu ei chyfyngu yn unig.

## Adran J – Amodau cyfyngiad

Os mai dim ond cyfyngu'r hawl yr ydych, pennwch yr amodau y mae'n rhaid i'r cyhoedd gydymffurfio â hwy tra bônt ar y tir. Mae "Sut i Ddefnyddio Cyfyngiadau" yn esbonio'r ffyrdd y cewch gyfyngu'r hawl.

Os ydych yn cyfyngu'r cyhoedd i lwybr neu bwyntiau mynediad penodol, marciwch y rhain ar y map yr ydych yn ei atodi i'r ffurflen.

## Adran K – Cyfiawnhad i gefnogi cais i gyfyngu neu wahardd yr hawl mynediad.

Defnyddiwch yr adran hon i esbonio mor llawn ag sy'n bosibl pam y mae angen gwahardd neu gyfyngu'r hawl mynediad yn y ffordd yr ydych yn ei disgrifio yn adrannau I a J ac at y diben a rowch yn adran H.

Os ydych yn dymuno cyflwyno papur neu bapurau ar wahân, atodwch hwy i'r ffurflen hon a nodwch yn yr adran hon eich bod wedi gwneud hynny. Mae'n bwysig bod yr holl bapurau yn aros gyda'i gilydd ac y gallwn fod yn glir ynghylch yr hyn yr ydych wedi'i gyflwyno i gefnogi'ch achos.

Os oes arnoch angen rhagor o le i gyflwyno'ch achos nag sydd ar gael ar y ffurflen, cyflwynwch eich holl achos ar ddalen ar wahân. Bydd hynny'n gliriach i bawb na'i rhannu rhwng y ffurflen a darn arall o bapur.

### Adran L – Caniatâd i ymweld â'r safle

Fel rhan o'r broses ymgeisio mae'n bosibl y bydd angen i ni ymweld â'r safle.  Nodwch Ie neu Na os ydych yn fodlon i hyn ddigwydd.  Byddwn yn cysylltu â chi ymlaen llaw i drefnu amser a dyddiad addas.

### Adran M - Datganiad a llofnod

Llofnodwch hwn i ddatgan bod y wybodaeth yr ydych wedi'i rhoi yn gywir. Yn arbennig, dylech nodi bod eich hawl i hysbysu neu wneud cais yn dibynnu ar natur y buddiant sydd gennych yn y tir y byddai'r hawl mynediad arno yn cael ei chyfyngu.

Os ydych yn asiant, llenwch yr adran "ar ran" gydag enw'r person yr ydych yn gweithredu ar ei ran.

## Cyfeiriadau cyswllt ar gyfer awdurdodau perthnasol er mwyn dychwelyd ffurflenni cais

### 1.1. Cyfoeth Naturiol Cymru

Tim Mapio Mynediad Agored

Maes y Ffynnon

Penrhosgarnedd

Bangor

Gwynedd

LL57 2DW

Tel: 0300 065 3000

E-mail: openaccessmapping@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

### 1.2 Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Swyddfa'r Parc Cenedlaethol
Penrhyndeudraeth
Gwynedd
LL48 6LF
**Ffôn:** 01766 770274

**Ffacs:** 01766 771211

**Ebost:** parc@eryri-npa.gov.uk

### 1.3 Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Plas y Fynnon,
Ffordd Cambrian,
Aberhonddu,
Powys,
LD3 7HP
**Ffon:**: (01874) 624437

**Ffacs:** (01874) 622574

**E-Bost:** enquiries@breconbeacons.org

### 1.4 Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Parc Llanion,
Doc Penfro,
Sir Benfro,
Cymru.
SA72 6DY

**Ffon:** 0845 345 7275

**Ffacs:** 01646 689076

**Ebost:** info@pembrokeshirecoast.org.uk